Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Imelda Richardson
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

10 Awst 2015

Annywl Imelda,

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich ymateb terfynol i'm Gofynion Gweithredu, ac rwyf nawr wedi cael cyfle i'w ddadansoddi[1].

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd, y bydd fy Ngofynion Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau a geisir yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl hŷn.

Ar sail y dystiolaeth a roddwyd i mi, mae tri maes sydd angen rhagor o waith i fy sicrhau y bydd y gwella a'r newid gofynnol yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl hŷn ac nid wyf yn fodlon y bydd eich sefydliad yn cydymffurfio ag un o'm Gofynion Gweithredu.

Atodir dadansoddiad manwl o'r wybodaeth ychwanegol rydych chi wedi'i rhoi mewn ymateb i'm cais.

[1] Fel rydych chi'n ei wybod, mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn mynnu fy mod yn cadw cofrestr o'r ymatebion i fy Ngofynion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n rhan o fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan, ynghyd â dadansoddiad o bob ymateb.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Fel rwyf wedi'i ddweud yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a wyf yn credu y bydd y newid rwyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei gyflawni ledled Cymru. Rwyf hefyd yn bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol mewn perthynas â hyn a'r camau gweithredu a geisir gan gyrff unigol sy'n rhan o'r Adolygiad. Bydd y datganiadau hyn yn cael eu gwneud ar 11 Awst 2015. Ar y dyddiad hwn, byddaf yn cyhoeddi fy mwriad i gynnal Adolygiad dilynol ymhen 18 mis. Ar y cam hwn byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau rwyf yn disgwyl eu gweld wedi cael eu cyflawni'n gyson ar draws y sector cartrefi gofal. Yn nes ymlaen byddaf yn rhoi gwybodaeth i chi ynghylch y cwmpas a'r dull gweithredu y byddaf yn eu mabwysiadu.

Gan nad wyf wedi cael lefel digon uchel o sicrwydd gennych chi, mae nifer o feysydd lle byddwn yn croesawu cael rhagor o wybodaeth a sicrwydd ar eu cyfer. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at fy natganiad 'Blwyddyn yn Ddiweddarach' y byddaf yn ei wneud ym mis Tachwedd. Os byddai'n ddefnyddiol i chi gwrdd â fi i drafod fy nadansoddiad o'ch ymateb sydd wedi'i atodi, cysylltwch â mi.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n croesawu'r persbectif a'r ddirnadaeth ychwanegol y mae adolygiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru wedi'u codi ac mae'n dymuno ymateb yn gadarnhaol i'r camau a nodwyd ar gyfer yr Arolygiaeth.

Angen Gweithredu 1.5

Casgliad Terfynol - Rhannol

1.5 Dylid datblygu a chyhoeddi rhestr benodol o 'ddigwyddiadau byth bythoedd' sy'n amlinellu'n eglur beth yw'r arferion y dylid rhoi terfyn arnynt yn syth. Dylai'r rhestr gynnwys y defnydd o iaith, gofal personol a hylendid, a thorri hawliau dynol.

Mae nifer o ymrwymiadau a chamau cadarnhaol y mae AGGCC wedi'u gwneud mewn ymateb i'r Angen Gweithredu hwn. Rwy'n croesawu'r ymrwymiadau a'r camau hyn ac, yn ei dro, eu potensial i hysbysu gwybodaeth a fydd ar gael yn gyhoeddus am 'ddigwyddiadau byth bythoedd' a fydd yn amlinellu arferion gofal annerbyniol yn glir, ac yn rhoi gwaelodlin gyson ar gyfer cyfundrefn arolygu AGGCC.

Er enghraifft, bydd AGGCC yn cyhoeddi canllawiau arolygu diwygiedig yn ystod hydref 2015 a fydd yn cynnwys trothwyon ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas ag arferion gofal annerbyniol, ac mae'n bwriadu cynnwys gwersi sydd wedi'u dysgu o adolygiad Flynn. Mae Fframwaith Dyfarnu Ansawdd hefyd yn cael ei ddatblygu, a fydd yn galluogi'r arolygwyr i sgorio cartrefi drwy ddyfarnu a yw ansawdd y gofal, yr arweinyddiaeth, y llesiant a'r amgylchedd mewn cartref gofal yn Rhagorol, Da, Digonol neu Wael. Rwy'n croesawu'r ffaith hefyd y bydd AGGCC yn ymgynghori'n ehangach â phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr ynghylch datblygu Fframwaith Dyfarnu Ansawdd AGGCC.

Er hynny, rwyf wedi cael siom nad yw'r safbwynt yma wedi'i hegluro eto, er gwaethaf y gofyniad am ragor o sicrwydd ynglyn â rôl allweddol dyfarniad proffesiynol wrth ymateb i ddigwyddiadau 'byth bythoedd' posib. Mae AGGCC wedi datgan y byddant yn datblygu canllaw ar gyfer arolygwyr i'w cynorthwyo i wneud dyfarniad proffesiynol ynglyn ag ansawdd gwasanaeth (fel rhan o'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd) a bydd y darganfyddiadau sydd yn fy adroddiad yn cael eu ddefnyddio. Er fy mod yn croesawu hyn, mae fy mhryderon yn parhau ynglyn â sut y bydd arolygwyr yn, ac yn gwneud eisoes, cael eu harwain i wneud dyfarniadau proffesiynol pan yn 'asesu'r risgiau i ddefnyddwyr gwasanaethau, a gallu'r darparwr i wneud gwelliannau'.

Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol AGGCC i'r Angen Gweithredu hwn, sef ei bod yn ymddangos nad oedd perchnogaeth brasach ar yr Angen Gweithredu hwn mor gadarn ag yr oeddwn wedi'i ddisgwyl. Gan hynny, mae'n dda gen i weld bod AGGCC wedi ymateb yn uniongyrchol i'r pryder hwn, drwy gydnabod bod rhoi gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau, [sy'n gorfod cynnwys gofal annerbyniol][2] i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr, a'u teuluoedd, yn fodd i'w grymuso.

Er hynny, rwyf wedi cael siom nad oes ymrwymiad i gyhoeddi rhestr o ddigwyddiadau byth bythoedd y gallai'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn uniongyrchol i AGGCC, a fyddai'n gwella gwybodaeth yr Arolygiaeth ac y gallai rhagor o gamau gael eu cymryd yn ei sgil. Mae hyn yn tanseilio'r eglurder sydd eu hangen ar draws y sector frasach ac ar gael i'r cyhoedd ynglyn â'r hyn na ddylai byth gael ei ganiatáu a bob amser yn cael ei weithredu ar.

Byddai hyn yn cyd-fynd gyda buddsoddiad AGGCC mewn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd ar-lein, sydd wedi'i cynllunio i annog mwy o bobl i godi materion gyda nhw'n uniongyrchol. Tra fy mod yn croesawu cynnydd o'r fath o ran ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd, ac yn cydnabod y cyfleoedd y gallai hyn eu creu i fynd ati'n gyflym i nodi gofal annerbyniol a mynd i'r afael ag ef, caiff

[2] Mewnosodiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

eu heffaith eu thanseilio heb ddeallusrwydd clir ac eglur ar draws galwedigaethau o beth y mae eithafoedd gofal annerbyniol yn ei olygu.

Er bod AGGCC wedi dangos bwriad ac arweinyddiaeth glir yn eu hymrwymiad i ddatblygu a chyhoeddi rhestr o ddigwyddiadau byth bythoedd yn y Fframwaith Dyfarnu Ansawdd a'r canllawiau arolygu diwygiedig, mae'n ymddangos mai dim ond arolygwyr AGGCC, ac nid gweithwyr proffesiynol eraill nac aelodau o'r cyhoedd, a fyddai'n gallu gweld a defnyddio'r rhain. Ar ben hynny, nid yw'r cwestiwn o gael y cyhoedd i roi gwybod am ddigwyddiadau byth bythoedd wedi cael ei ystyried yn bendant.

Yn fy hysbysiad atodol, gofynnais am gyfeiriad pendant at sut roedd arolygwyr AGGCC yn cydbwyso'u hasesiadau o risgiau yn erbyn eu dyletswydd gyfreithiol i barchu ac amddiffyn hawliau pobl hŷn o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Rwy'n siomedig nad yw ymateb terfynol AGGCC yn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch sut mae'r arolygwyr yn sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal wrth iddyn nhw arfer eu barn broffesiynol.

Fe fyddaf yn cadw golwg agos ar ddatblygiad digwyddiadau 'byth bythoedd' clir a'r ffordd y'i defnyddir fel offeryn i nodi a gwaredu eithafoedd gofal annerbyniol.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae yna ymrwymiadau cadarnhaol a dilyniant clir yn natblygiad y camau y mae AGGCC wedi'u cymryd mewn ymateb i'r Angen Gweithredu hwn. Er enghraifft, yr ymwneud a'r ymgynghori ehangach â darparwyr sydd wedi digwydd ac sydd wedi arwain at ailgloriannu'r broses arolygu, ac mae yna frwdfrydedd cryf o blaid cyd-gynhyrchu'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd â'r sector gofal.

Mae AGGCC wedi darparu sicrwydd y bydd yr 2il rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer ail-werthuso ei phroses arolygu yn cynnwys ymgysylltu brasach gyda phobl hŷn sydd yn byw yng nghartrefi gofal, eu teuluoedd a sefydliadau cynrychioladol. Serch hynny, mynegaf pryder o hyd y mae'n ymddangos y fod yna ymagwedd anghyfartal tuag at cynnwys a gwrando i preswylwyr ac aelodau teulu, a defnyddio'u safbwyntiau.

Fe fyddaf yn cadw golwg agos ar ddatblygiad y broses arolygu adolygedig a fframwaith dyfarnau ansawdd er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ansawdd bywyd, a gofal ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal fel yr amlinellwyd yn glir gennyf yn fy Adolygiad.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod AGGCC wedi rhoi sicrwydd na fydd y cynigion ynglŷn â newid enw'r thema yn y fframwaith arolygu newydd o 'ansawdd bywyd' i 'ategu llesiant' yn glastwreiddio ffocws cynyddol AGGCC ar brofiad yr unigolyn o ansawdd bywyd. Rwy'n gefnogwr pybyr i'r 'Fframwaith canlyniadau cenedlaethol i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf yr uchod, nid wyf wedi derbyn sicrwydd ddigonol eto y bydd y gweithredoedd presennol yn arwain at safbwynt lle bo darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC yn wir deall profiad beunyddiol gwirioneddol unigolyn mewn cartref gofal, sy'n dibynnu'n llwyr ar ansawdd bywyd yr unigolyn, a gallu'r cyrff hyn i weithredu ar y ddealltwriaeth honno er mwyn sbarduno gwelliannau ac atal gofal gwael.

Rwy'n cydnabod y bydd sefydlu'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a'r paneli cynghori rhanbarthol yn effeithio ar ddealltwriaeth AGGCC o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal fel unigolion, ac mae'n dda

gen i gyfrannu at y fforwm hwn. Er hynny, mynegaf pryder na fydd hyn yn ei hun yn ddigon i gefnogi dealltwriaeth ddigonol ar lefel unigol, a fel canlyniad, ddim yn galluogi AGGCC o bosib i gyflawni eu nod arfaethedig o 'roi profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wrth galon ein gwaith'.

Os yw hyn i'w gael ei chyflawni, yna mae angen i ymgysylltu ystyrlon â phreswylwyr yng nghartrefi gofal fynd y tu hwnt i unigolion sydd wedi'u penodi'n unswydd, ac sy'n ymateb i agenda ffurfiol, gan nad yw eu safbwyntiau a'u profiadau nhw o reidrwydd yn cynrychioli profiad bywyd y mwyafrif o breswylwyr mewn cartrefi gofal, a'r aelodau o'u teuluoedd yng Nghymru, na chwaith profiad unigol pobl hŷn yng nghartrefi gofal penodol. Am y rheswm yma rwyf yn gefnogwr brwd o weld aseswyr lleyg yn rhan o'r broses adolygu adolygedig.

Er fod AGGCC wedi cryfhau ei hymateb i bryderon a ddaw i fewn trwy ddefnyddio'r cyfryngau arlein (y mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â phobl hŷn), nid ydynt yn dweud sut y byddant yn sicrhau'n systematig fod pryderon a ddaw i'r golwg yn cael eu trin yn effeithiol a'u ddefnyddio i nodi ddealltwriaeth strategol frasach o ansawdd bywyd a gofal.

Mae hyn yn adlewyrchu lefel brasach o eglurder ynglyn â sut, neu os oes yna, adborth parhaus gan bobl hŷn, trwy ystod o ffynonellau, yn cael ei gasglu ar hyn o bryd a, os felly, sut y defnyddir hyn i sbarduno gwelliannau. Ni roddodd AGGCC ddigon o dystiolaeth manwl ynghylch sut y byddai adborth parhaus pobl hŷn yn cael ei ddefnyddio i sbarduno gwelliannau parhaus a sut y câi adroddiadau ynglŷn â hyn eu cyflwyno yn unol â'm Hangen Gweithredu; heblaw am gyfeiriadau at Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a systemau TG newydd.

Nodaf y fod AGGCC yn cydnabod y cyfle i ddatblygu adroddi flynyddol i gydymffurfio â Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Disgwyliaf y bydd hyn yn cynnwys sylwadau flynyddol ar ba mor effeithiol y mae darparwyr yn gwrando i, a gweithredu ar yr hyn y maent yn eu clywed gan pobl hŷn er mwyn sbarduno gwelliannau parhaol.

Angen Gweithredu 6.3

Casgliad Terfynol – Annerbyniol

6.3 Defnyddir aseswyr lleyg yn barhaus fel rhan ffurfiol ac arwyddocaol o'r broses archwilio.

Rwy'n croesawu ymrwymiad AGGCC i edrych ar ffyrdd i ddefnyddio profiad y Cyngor Iechyd Cymuned o fewn eu hymagwedd cyffredinol i fesur ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad AGGCC i gynnwys pobl hŷn yn eu harolygiadau a'u hadolygiadau cenedlaethol a thematig pan fydd hynny'n briodol.

Er fod AGGCC wedi datblygu rhai opsiynau gwahanol i aseswyr lleyg, mae angen rhagor o fanylion i ddarparu'r sicrwydd rwyf yn ei chwilio am ynglyn â sut mae'r her a'r safbwyntiau allanol a gyflwynir gan aseswyr lleyg sydd yn ymweld â chartrefi gofal yn gyfatebol i fyrddau cyfranogi lleol ac adolygiadau thematig, er mwyn sicrhau bod profiadau dyddiol pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a'u hawliau, yn cael eu ddiogelu.

Nid yw'r ymagweddau ymgynghorol a thematig sydd wedi'u sefydlu gan AGGCC yn gyfartal â'r gwahaniaeth y gallai aseswyr lleyg ei wneud o ran parhaol, ffurfiol ac arwyddocaol o'r broses arolygu drwy ddeall ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal drwy lygaid lleygwr. Wedi darllen yr asesiad ariannol ar gyfer Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), dwy ddim yn cytuno bod cost aseswyr lleyg yn rhy uchel a byddwn yn disgwyl i AGGCC allu amlygu manteision aseswyr lleyg, fel modd i gynnig canfyddiad allanol, ac i wneud achos cryf i Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio fel adnodd. Rwyf yn cydnabod ac yn croesawu adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)[3] sydd yn argymell y fod yna ofyniad ar glawr y Bil i AGGCC gynnwys defnydd aseswyr lleyg fel rhan hanfodol o'i hymagwedd i reoleiddio ac arolygu.

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1, 2015

O gofio bod pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn agored i niwed a'r lefelau aciwtedd yno, ynghyd â phresenoldeb aseswyr lleyg yn Arolygiaeth Iechyd Cymru 'sy'n sicrhau bod ein harolygiadau wedi'u gwreiddio'n gadarn yn y profiad o ofal gan gleifion, a disgwyliadau'r cyhoedd',[4] byddwn yn disgwyl i'r un ymagwedd gael eu gweld ar draws pob arolygiaeth. Ar ben hynny, mae mecanweithiau rhagweithiol ychwanegol ar waith ar draws gwasanaethau plant, fel y ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a rôl statudol ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n arbennig o ynysig mewn gofal, ond nid yw'r rhain ar gael i bobl hŷn.

Y cyfuniad o aseswyr lleyg, ymagwedd sydd yn fwyfwy personol i gofal, yn unol gyda'r fframwaith arolygu newydd a gynigir, sydd gan y potensial i greu offeryn pwerus a ddylai ei hystyried yn llawn, ac yn meddylfryd y cyhoedd yn gyson gydag amgylchiadau eraill y mae pobl sydd yn agor i niwed yn ran ohono.

Angen Gweithredu 6.9

Casgliad Terfynol – Rhannol

6.9 Prif Archwilydd Gwasanaeth Cymdeithasol yn cyhoeddi, fel rhan o'i

Hadroddiad Blynyddol, wybodaeth am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a hynny'n cynnwys y canlynol:

- ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n gaeth i'r gwely
- ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n byw â dementia
- ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n colli defnydd o synhwyrau
- gweithredu cynlluniau gofal mewn cartrefi pobl hŷn
- cywirdeb datganiadau allanol gan ddarparwyr annibynnol
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws Cymru

[4] Arolygiaeth Iechyd Cymru, 'Ein hymateb i'r adroddiad 'Chwilio am Atebolrwydd', a gyhoeddwyd heddiw, 14 Gorffennaf 2015

Croesawaf fod AGGCC yn ymrwymedig i ystyried sut y gellir ehangu Adroddiad Flynyddol y Prif Arolygwr er mwyn cynnwys sylwadau penodol ar y meysydd yr wyf wedi eu phwysleisio. Mae'r ymateb yn darparu disgrifiad fer o sut y gellir casglu data ac yn disgrifio'r gwaith ar y cyd sydd yn digwydd eisoes gyda sefydliadau megis Sense Cymru.

Er gwaethaf yr ymrwymiadau i weithredu sydd yn datblygu eisoes mewn meysydd eraill a restrir yn yr Angen Gweithredu hwn, rwyf yn mynegi pryder o hyd fod yr ymateb yn parhau i fethu ar ymrwymiad llawn i adrodd ar sut y mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu mewn cartrefi gofal ledled Cymru.

Rwyf yn cydnabod fod AGGCC yn deall fod parchu hawliau dynol wrth wraidd gofal da, a bydd y Fframwaith Dyfarnu Ansawdd, mewn amser, yn mynegi sylwadau ar yr ymddygiadau a'r arferion sydd eu hangen gan ddarparwyr, ac y mae'n glir fod gan AGGCC prosesau yn ei lle i gyflawni ei chyfrifoldebau ac adrodd ar rai agweddau o hawliau dynol trwy'r 'Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid'.

Tra fy mod yn cydnabod eich her o adrodd ar hawliau dynol pobl hŷn, mae hawliau dynol wrth wraidd ansawdd bywyd a gofal, datganiad y mae AGGCC yn ei chydnabod ei hun.

Mae presenoldeb Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig (CU) ar gyfer Pobl Hŷn ar glawr y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei wneud yn fwyfwy angenrheidiol i'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd, ac Adroddiad Flynyddol y Prif Arolygwr, i adlewyrchu ar sut y mae'r gofal a ddarparwyd yng nghartrefi gofal yn diogelu hawliau dynol pobl hŷn. Ymhellach, mae darpariaeth hawliau dynol o fewn y Ddeddf Gofal 2014 yn gosod cyfrifoldebau hawliau dynol ar holl darparwyr pan y maent yn cyflawni 'gweithrediad o natur cyhoeddus'.

Rwyf yn cydnabod ac yn croesawu Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)[5] sydd yn galw ar adroddiad flynyddol yr arolygwyr i gynnwys cyfeiriad at effaith Egwyddorion y CU ar gyfer Pobl Hŷn, ac i'r Bil roi 'sylw dyledus' i Egwyddorion y CU.

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1, 2015

Byddaf yn dymuno gweld AGGCC yn dangos arweiniad cryf yn natblygiad ymagwedd yn seiliedig ar hawliau i arolygu a rheoleiddio ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Os yw tryloywder ac agwedd agored i fod yn offeryn effeithiol ar gyfer newid, yna mae'n hollbwysig fod mesurau adroddi newydd fewn Adroddiad Flynyddol y Prif Arolygwr yn canolbwyntio ar wybodaeth ansoddol yn ogystal â meintiol. Fel canlyniad, fe fyddai diffyg naratif yn yr Adroddiad Flynyddol ar sut y mae hawliau dynol pobl hŷn wedi'u pharchu a'u diogelu yn golygu cyfle wedi'i golli yn hyn o beth.